SOCIAL RESEARCH NUMBER:
04/2018
PUBLICATION DATE:
25/01/2018

# Gwerthusiad o Atgyfnerthu Rheilffyrdd y Cymoedd: Crynodeb Gweithredol

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Penodwyd Peter Brett Associates, mewn partneriaeth â Beaufort Research a Loxley Consultancy, ym mis Awst 2015 i gynnal gwerthusiad terfynol o Brosiect Atgyfnerthu Rheilffyrdd y Cymoedd a ariannwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Cafodd y gwerthusiad ei gynnal mewn dwy ran:

i. Gwerthusiad o ail agor Llinell Glynebwy drwy gynnal arolygon gyda defnyddwyr ar drenau, ymgynghori â rhanddeiliaid a dadansoddiad desg.

ii. Gwerthusiad desg o'r rhaglen Atgyfnerthu Rheilffyrdd y Cymoedd ehangach, a ddechreuodd cyn ymyriad ERDF.

1.2 Cafodd y gwaith ymchwil ei gynnal yn 2015, bedair blynedd a hanner ar ôl cwblhau'r prosiect.

**Prosiect Atgyfnerthu Rheilffyrdd y Cymoedd**

1.3 Mae rhwydwaith rheilffyrdd y Cymoedd yn gasgliad o linellau rheilffordd maestrefol sy'n cysylltu Canol Dinas Caerdydd â chymunedau yn y Cymoedd a De Morgannwg / Bro Morgannwg drwy rwydwaith o 81 o orsafoedd. Mae rhwydwaith rheilffyrdd y Cymoedd wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol yn ystod y 10-15 mlynedd diwethaf ac mae wedi gweld twf cryf mewn niferoedd teithwyr. Bu'n rhaid cynyddu capasiti ac amlder yn gyson er mwyn bodloni'r twf hwn, er roedd Prosiect Atgyfnerthu Rheilffyrdd y Cymoedd yn elfen allweddol o hyn.

1.4 Menter gan Lywodraeth Cymru yn bennaf oedd y Prosiect gyda'r nod o gefnogi gwell gwasanaethau ar lwybrau rheilffordd allweddol (yn arbennig Glynebwy) sy'n cysylltu'r Cymoedd â Chaerdydd. Dechreuodd y Prosiect ym mis Ionawr 2005 drwy ffurfio'r gwasanaethau 'a atgyfnerthwyd' cyntaf, gydag addewid o arian i gynnal lefelau gwasanaethau hyd at 2018.

1.5 Roedd y brosiect yn cynnwys dau faes gwahanol:

- Ailagor Llinell Glynebwy ym mis Chwefror 2008 rhwng Parcffordd Glynebwy a Chaerdydd Canolog (pan gyflwynwyd y brosiect, nid oedd gorsafoedd Tref Glynebwy a Pye Corner wedi'u hagor); a
- Gan ddechrau ym mis Ionawr 2005, darparu rhagor o gerbydau er mwyn darparu trenau â chapasiti uwch a chefnogi trên hirach (h.y. atgyfnerthu gwasanaethau) ar wasanaethau oriau brig y llinellau canlynol yn y Cymoedd.
  - Merthyr Tudful / Aberdâr – Pen-y-bont ar Ogwr / Ynys y Barri;
  - Treherbert – Caerdydd Canolog; a

- Rhymni – Caerdydd Canolog

1.6 Pennodd Cynllun Busnes Atgyfnerthu Rheilffyrdd y Cymoedd dri amcan ar gyfer y prosiect:

- **Amcan 1:** Annog newid modd drwy leihau'r defnydd o'r car, yn arbennig ar gyfer teithiau cymudo gyrrwr yn unig.
- **Amcan 2:** Gwella mynediad cynaliadwy at gyfleoedd gwaith, gwasanaethau allweddol a galluogi pobl leol i gael mynediad at gyfleoedd addysg a hyfforddiant a'r lleoliadau cyflogaeth mawr yng Nghymru.
- **Amcan 3:** Lleihau tagfeydd a lefelau allyriadau nwyon tŷ gwydr niweidiol drwy wella gwasanaethau rheilffyrdd yn ystod cyfnodau teithio oriau brig (Llywodraeth Cymru, 2007).

1.7 Rhoddwyd arian drwy Raglen Gydgyfeirio yr ERDF (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) o dan Blaenoriaeth 3, Datblygu Seilwaith Strategol ar gyfer Economi Fodern, Thema 1, Trafnidiaeth Gynaliadwy. Cyfanswm cost y prosiect oedd £22,674,978, gan gynnwys grant ERDF o £8,478,945. Cynhaliwyd y prosiect rhwng 1 Ebrill 2008 a 30 Ebrill 2011.

1.8 Mae'r targedau allbwn a bennir yn y Cynllun Busnes fel a ganlyn:

- Creu neu wella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus (h.y. teithiau ar drên blynyddol mewn cilometrau) = **1,662,954** y flwyddyn
  - Atgyfnerthu: 442,316 (neu 221,158 o gilometrau ar drên)
  - Glynebwy: 1,220,638 (neu 527,974 o gilometrau ar drên)
- Cyfleoedd cilometrau teithwyr gros blynyddol ar drafnidiaeth gyhoeddus = **147,092,130** (h.y. cilometrau blynyddol yn eistedd ac yn sefyll).
  - Atgyfnerthu 33,389,738 (24,733,139 yn eistedd)
  - Glynebwy: 113,702,392 (84,223,994 yn eistedd)

## 2. Canfyddiadau a Chasgliadau

2.1 Ar y cyfan, mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant mawr, gan gyflawni yn erbyn amcanion y Cynllun Busnes.

**Amcan 1: Annog newid moddol trwy leihau'r defnydd o geir, yn enwedig teithiau gyrrwr yn unig.**

- Mae ailagor Llinell Glynebwy wedi cynhyrchu tua 530,000 o gilometrau ar drên ychwanegol y flwyddyn a 77.5 miliwn o gilometrau 'sedd' ychwanegol y flwyddyn, sy'n gynnydd sylweddol yn y cyflenwad. Roedd y gwelliant hwn yn golygu cynnydd o 19% yng nghapasiti'r rheilffordd heblaw Cymoedd Glynebwy.
- Cafodd ailagor Llinell Glynebwy wared ar tua 14 miliwn o gilometrau ar ffordd y flwyddyn, gan gynhyrchu tua £1 miliwn o fuddiannau economaidd gros y flwyddyn.
- Cynyddodd teithio i'r gwaith â rheilffordd 300% yng nghoridor Glynebwy – y Tŷ Du rhwng cyfnodau Cyfrifiad 2001 a 2011. Y ffigur cyfatebol ar gyfer y llinellau wedi'u hatgyfnerthu yw twf o 88%, 18% yn uwch nag yn yr ardaloedd heb eu hatgyfnerthu a ddefnyddiwyd fel grŵp rheolydd.

**Amcan 2: Gwella hygyrchedd cynaliadwy i gyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau allweddol a galluogi pobl leol i gael mynediad at gyfleoedd addysg a hyfforddiant a'r prif ganolfannau cyflogaeth yng Nghymru.**

- Mae'r arolwg defnyddwyr a'r ymgynghoriadau'n awgrymu bod ailagor llinell Glynebwy wedi cael effaith drawsnewidiol o ran mynediad i'r farchnad waith, yn enwedig yng Nghaerdydd. Nododd nifer o ymgyngoreion y prosiect fel enghraifft o ymarfer gorau lle gall buddsoddiad

wedi'i dargedu gan y llywodraeth mewn seilwaith hybu datblygiad economaidd ac adfywio ehangach.

- Bu twf cryf yn nifer y teithwyr rheilffordd ar oriau brig ledled De Ddwyrain Cymru na fyddai'n debygol o fod wedi digwydd heb y gwasanaethau cryfach.

**Amcan 3: Lleihau tagfeydd a lefelau allyriadau nwyon tŷ gwydr niweidiol trwy wasanaeth rheilffordd gwell yn ystod teithiau oriau brig.**

- Fel y nodwyd, mae ailagor llinell Glynebwy wedi cael gwared ar tua 4 miliwn o gilometrau ffordd y flwyddyn. O'r £1 miliwn o fuddiannau economaidd gros a gynhyrchir yn flynyddol, mae tua £130,000 o'r buddiannau hyn yn gysylltiedig â gostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr, ansawdd aer gwell yn lleol a llai o sŵn.

2.2 Yn bwysicach efallai, mae'r VRS wedi cyfrannu at ystod eang o bolisïau Llywodraeth Cymru a Themâu Trawsbynciol holl bwysig ERDF, sef Cyfle Cyfartal a Chynaliadwyedd Amgylcheddol. Yn wir:

- O ran cynaliadwyedd amgylcheddol, mae'r VRS, fel y nodwyd uchod wedi cynhyrchu tua £130,000 y flwyddyn mewn buddiannau amgylcheddol.
- Mae cyfle cyfartal hefyd wedi bod yn un o brif lwyddiannau'r VRS. Mae'r VRS wedi gwella mynediad i farchnad swyddi a hamdden Caerdydd a'r gorsafoedd newydd yn sylweddol, ac mae'r VRS hefyd wedi hybu cyfle cyfartal trwy ddarparu cyfleusterau anabl gwell na'r hyn sydd ar gael yn rhai o orsafoedd eraill y Cymoedd a hefyd ar fysiau.

**Ailagor Llinell Glynebwy**

2.3 Roedd ailagor llinell Glynebwy yn llwyddiant mawr hefyd o ran y canlyniadau a gynhyrchwyd gan y prosiect. Bu twf sylweddol yn nifer y teithwyr ar linell Glynebwy ers ei hailagor yn 2008. Gorsaf Llanhiledd ym Mlaenau Gwent sydd wedi profi'r twf mwyaf yn ystod y cyfnod, sy'n awgrymu bod y llinell newydd wedi diwallu elfen o alw cudd. Bu twf yn gryf hefyd yn Crosskeys a'r Tŷ Du.

2.4 Ond yn y pen draw, nid oes dim un prosiect trafnidiaeth yn cael ei gyflawni er ei fwyn ei hun – mae bob amser yn fodd i alluogi a hwyluso pecyn ehangach o fentrau polisi trwy wella mynediad at farchnadoedd a gwasanaethau. A'r effeithiau hyn yw'r hyn a ddefnyddir i fesur llwyddiant ailagor llinell Glynebwy a'r prosiect atgyfnerthu yn ehangach. Mae'r effeithiau sy'n gysylltiedig ag ailagor y llinell i draffig teithwyr yn sylweddol ac maent yn cynnwys:

- Mae ailagor llinell Glynebwy wedi gwella'r mynediad i farchnad swyddi a hamdden Caerdydd yn sylweddol. Mae hyn wedi golygu cyfleoedd cyflogaeth a hamdden newydd i breswylwyr Glynebwy ac, ar yr un pryd, mae wedi ehangu'r gronfa o adnoddau / cwsmeriaid sydd ar gael i farchnadoedd cyflogaeth a manwerthu / hamdden Caerdydd.
- Mae'r cynllun, ochr yn ochr ag ystod o fesurau polisi eraill, hefyd wedi hwyluso datblygiad economaidd ac adfywio yng Nghwm Ebwy. O'r pwys mwyaf fu rôl y llinell fel galluogwr datblygiadau ar safle hen waith dur Glynebwy. Mae'r effeithiau eraill yn cynnwys hwyluso datblygu defnydd tir newydd (yn enwedig tai) mewn ardaloedd fel Glynebwy a'r Tŷ Du. Mae ailagor y llinell hefyd wedi cyd-daro ag ystod o brosiectau adfywio yng nghanol y dref.
- Mae'r gorsafoedd newydd hefyd wedi hybu cyfle cyfartal trwy ddarparu gwell cyfleusterau mynediad anabl na'r hyn sydd ar gael yn rhai o orsafoedd eraill y Cymoedd a hefyd ar fysiau.
- Nodwyd hefyd fod ailagor llinell Glynebwy wedi helpu i hybu crynodref economaidd o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Nodwyd y prosiect ei hun gan nifer o randdeiliaid fel yr union fath o brosiect a ddylai gael ei ddatblygu o dan y cysyniad Metro.

2.5 Ar y cyfan, gellir barnu fod ailagor llinell Glynebwy wedi bod yn llwyddiannus dros ben, gan gyflawni'r amcanion a bennwyd cyn dechrau'r cynllun a hwyluso ystod eang o effeithiau cymdeithasol dymunol.

**Gwasanaethau a Atgyfnerthwyd**

- Arweiniodd y gyfres gyntaf o gynlluniau atgyfnerthu yn 2005 at gynnydd o 19% yn nghapasiti rhwydwaith rheilffordd y Cymoedd, ymyriad critigol ar adeg pan oedd cyfyngiadau ar gapasiti mewn perygl o arafu twf.
- Bu cynnydd o 88% yn y teithio i'r gwaith ar y llinellau a atgyfnerthwyd rhwng cyfnodau Cyfrifiad 2001 a 2011, sydd 18% yn uwch nag yn yr ardaloedd heb eu hatgyfnerthu a ddefnyddiwyd fel grŵp rheolydd.
- Er gwaethaf y twf hwn, a thwf o 45% mewn teithio ar drefnau yng Nghymru'n gyffredinol rhwng 2004-05 a 2013-14, ychydig iawn o enghreifftiau a geir o'r mesur 'Mwy o Deithwyr na'r Capasiti' (PiXC) yn cael ei wireddu ar linellau'r Cymoedd, sy'n awgrymu bod y capasiti ychwanegol wedi hwyluso'r twf hwn mewn teithio ar drenau.

**Yr Adroddiad Ymchwil Llawn:** Peter Brett Associates, Beaufort Research, and Loxley Consultancy.

**Yr Adroddiad Ymchwil Llawn:** Peter Brett Associates, Beaufort Research, and Loxley Consultancy. (2018). *Gwerthusiad o Atgyfnerthu Rheilffyrdd y Cymoedd: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Adroddiad GSR rhif 04/2018.
**Ar gael yn:** http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-valleys-rail-strengthening-project/?lang=cy

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn rhai o eiddo'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru.

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda:**
Joanne Corke
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 1138
E-bost: joanne.corke@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78903-405-9